# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd Timothy Wood**

**Ward: Canol Pen-y-bont ar Ogwr**

**Plaid: Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2023**.** Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r un a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| **<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Ward Canol Pen-y-bont ar Ogwr ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi cyflawni amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 124 o ymholiadau cyfansoddol yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.<br><br>Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl yn gynrychiolydd arnoch, rwyf wedi mynd i nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau y cynhelir fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.<br><br>Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy ngweithgareddau drwy ddefnyddio'r ddolen hon:<br><br>www.facebook.com/cllr.timwood |
| **<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**<br><br>Rwy'n cyflwyno atgyfeiriadau yn rheolaidd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar ran trigolion (Dros 100 hyd yn hyn).<br><br>Rwy'n mynd i gyfarfodydd a sesiynau ymgysylltu rheolaidd ag aelodau, a hynny â sawl sefydliad.<br><br>Rwyf hefyd yn cwrdd â PCSO y ward o leiaf unwaith yr wythnos i ddal i fyny â nhw ynghylch materion lleol sy'n effeithio ar y dref a thrigolion ein ward.<br><br>Gan fy mod yn gweithio yng nghanol y dref, rwyf bob amser yn ymgysylltu â'r cyhoedd o ddydd i ddydd. Hefyd, rwy'n derbyn llawer o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a galwadau ffôn yr ymdrinnir â nhw cyn gynted ag y bo modd. |

Yng Nghanol Pen-y-bont ar Ogwr rydym yn dîm o 3 sy'n cwmpasu ward fawr iawn, felly rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r Cynghorydd Steven Bletsoe a'r Cynghorydd Steven Easterbrook.

**<u>Mentrau a Gweithgareddau Arbennig</u>**

Rwy'n Gynghorydd Tref ers dros 6 mlynedd yn gwasanaethu ward Y Castellnewydd, a llynedd cefais y fraint o fod yn Faer y Dref (2022-2023) a chwrdd â llawer o grwpiau o bobl o ysgolion, eglwysi, elusennau, corau, grwpiau gwirfoddol a phobl sydd â hobïau gwych.

Yn fasnachwr yn y dref, yn gynghorydd bwrdeistref a thref, rwy'n cefnogi amrywiaeth eang o drigolion ac ymwelwyr ac rwyf bob amser ar gael i helpu pobl.

Fy nod yn y pen draw yw agor canol y dref yn rhannol i geir i helpu gyda nifer yr ymwelwyr a fydd yn creu canol tref mwy bywiog.

Mae angen toiledau mwy hygyrch arnom yng nghanol ein tref, ac mae angen ymwelwyr a siopwyr arnom i deimlo'n ddiogel, ond nid dim ond ein tref sy'n cyfri, mae pawb yma i gynrychioli ein holl drigolion sy'n byw yng nghanol Pen-y-bont ar Ogwr.

Sefais yn gynghorydd sawl blwyddyn yn ôl i wneud ein hardal yn lle gwell i fyw ynddo, rwyf wedi byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar hyd fy oes ac rwy'n falch iawn o gynrychioli'r ardal lle rwyf wedi byw a gweithio.

Mae llawer o bobl yn fy adnabod ac yn gwybod ble i ddod o hyd i mi ac rwyf bob amser ar gael am sgwrs.

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd T. Wood** | **Dyddiad: 29 Mehefin 2023** |